Cynllunwyr Iaith Cymru

y fforwm proffesiynol
ar gyfer cynllunwyr iaith yng Nghymru.

Cyfarfod 8 Chwefror 2008, Y Morlan, Aberystwyth.

Nodiadau cryno

Cafwyd cyfarfod llwyddiannus i drafod **Cymhwyster Proffesiynol – y ffordd ymlaen** ar yr 8fed o Chwefror. Roedd 30 yn bresennol o amrywiol feysydd, gyda 26 o ymddiheuriadau wedi eu derbyn yn ogystal.

Cyflwynwyd nodiadau cyfarfod mis Hydref gan nodi mai'r drafodaeth ar Addysg a Hyfforddiant wnaeth arwain at thema'r cyfarfod hwn.

Model o gymhwyster proffesiynol:

Cyflwyniad gan Elaine Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Hyfforddiant, Cwmni Iaith

Pam bod angen ystyried cymhwyster yn y maes?

- Mae mwy a mwy ohonon ni'n gweithio yn y maes iaith yng Nghymru heddiw ac yn ymwneud yn uniongyrchol yn ein bywyd gwaith bob dydd â'r broses o geisio lledu a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg;
- Mae angen cymhwyster er mwyn troi'r maes yn broffesiwn ac ennill hygrededd;
- Mae'n rhaid i ni ddeall pa brosesau sydd ar waith, gwybod sut i ymateb i hynny ac arddel corff o werthoedd sy'n gosod ein stamp a'n hunaniaeth, ein hawdurdod a'n harbenigedd ar yr hyn ry'n ni'n ei wneud.

Beth sydd angen?

- Yn ddelfrydol mae angen continwwm eang o gymwysterau, ond dyma gynnwys posib ar gyfer diploma ôl-radd, sef cyfres o 7 modiwl:

    - Iaith a Chymdeithas
    - Cyflwyniad i Gynllunio Iaith
    - Deall Dwyieithrwydd
    - Egwyddorion Ymwybyddiaeth Iaith
    - Llunio a Gweithredu Strategaeth Iaith
    - Dwyieithrwydd, Amlieithrwydd a'r cyd-destun Ewropeaidd
    - Sgiliau'r Man Gwaith

Sut mae symud ymlaen?

- Llunio proffil o'r gweithlu sy'n gweithio ym maes iaith;
- Darganfod pa fodelau dysgu fyddai'n apelio at bobl.

Mapio anghenion y maes

Cyflwyniad gan Dai Rogers, Uwch Ddarlithydd, Coleg y Drindod

Yn dilyn trafodaeth ar faterion addysg a hyfforddiant yng nghyfarfod mis Hydref, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod angen datblygu cymhwyster proffesiynol ôl radd mewn cynllunio iaith.
- Bod angen i'r cymhwyster hwnnw gael ei ddilysu'n broffesiynol gan y maes.
- Y dylid ystyried datblygu cymwyseddau proffesiynol ar gyfer gwahanol agweddau ar y proffesiwn a swyddi cysylltiol allweddol.
- Bod yna farchnad ar gael ar gyfer cymhwyster o'r fath a bod brys ar gyfer ei ddarparu.
- Bod angen i ddarparwyr ystyried darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Bod yna anghenion hyfforddi galwedigaethol amrywiol ac eang sydd angen eu diwallu ar sawl lefel ac mewn sawl maes.
- Bod diffyg gwybodaeth gyfredol am y cyfleoedd addysg a hyfforddiant sydd ar gael.

Yn Rhagyfr 2006 cyhoeddwyd adroddiad yr Arglwydd Leitch, *Leitch Review of Skills: Prosperity for all in the global economy - world class skills*, a roddodd bwyslais ar godi lefel sgiliau yn y DU. Mewn ymateb i hyn cyhoeddwyd adroddiad drafft ar sgiliau a chyflogaeth gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr 2008, sef *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth sgiliau a chyflogaeth*. Bydd modd ymateb i'r ddogfen ymghynhori ddrafft hon tan y 10fed o Ebrill.

Mae Lifelong Learning UK eisoes wedi cyflawni llawer o waith ar fapio anghenion y gweithlu.

Adnabod anghenion y gweithlu: methodoleg posib

1. Asesiad o'r sector i adnabod anghenion sgiliau (tymor byr, canolig a thymor hir).
2. Adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol (addysg a hyfforddiant) ar bob lefel – natur, ehangder, perthnasedd.
3. Adnabod bylchau a gwendidau. Cytuno ar flaenoriaethau.
4. Adolygu'r posibliadau ar gyfer gweithredu ar y cyd - perswadio cyflogwyr i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau – asesiad o'r hyn mae cyflogwyr yn barod i'w gefnogi.
5. Cytundeb rhwng cyflogwyr, cyrff ariannu a chyrff perthnasol er mwyn sicrhau darpariaeth briodol o ran addysg a hyfforddiant.

Gweithgaredd

Gofynnwyd i bawb ateb ychydig o gwestiynau yn unigol ynglŷn â'u profiadau addysg a hyfforddiant ym maes cynllunio iaith.

Yna, ffurfiwyd tri grŵp er mwyn trafod anghenion y gweithlu gan ddefnyddio'r ystyriaethau canlynol:

- lefel? (e.e. modylau, tystysgrif, diploma, gradd Meistr?)
- hyblygrwydd a dilyniant?
- cynnwys - agweddau penodol?
- cynnwys – sgiliau trosglwyddadwy / sgiliau gwaith?
- darpariaeth cyfrwng Cymraeg / Saesneg / ddwyieithog?
- dulliau dysgu? darparwyr? dilysu / achredu?
- lleoliad(au)?
- perthynas gyda rhaglen(ni) Datblygiad Proffesiynol Parhaus?
- unrhyw ystyriaethau eraill?

O'r trafodaethau adnabuwyd blaenoriaethau, sef bod angen :

- sicrhau fframwaith cymhwyster ac asesu ar lefel 4, sef cymhwyster ôl-radd;
- ystyried "model llygad y dydd", h.y. modiwlau craidd ac ystod o fodiwlau dewisol eraill;
- llunio fframwaith cymhwyster a fyddai'n berthnasol i'r byd gwaith;
- llunio fframwaith cymhwyster fyddai'n gyfuniad o'r ymarferol a'r deallusol;
- sicrhau mynediad hygyrch, hyblyg a dwyieithog at y cymhwyster;
- annog sefydliadau AU i weld y cyfle;
- ystyried sefydlu Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer maes y Gymraeg yn gyffredinol er mwyn sefydlu'r cymwyseddau perthnasol i gynllunio iaith a chymwyseddau perthynol eraill;
- ystyried cynghreirio ag eraill, e.e. gyda'r maes cyfle cyfartal;
- cynnal awdit sgiliau er mwyn adnabod swyddogaethau cyfredol y gweithlu.

Dilysu Proffesiynol

Cyflwyniad gan Gareth Ioan, Prif Weithredwr, Iaith: y ganolfan cynllunio iaith

Disgrifiodd dilysu proffesiynol fel proses trwy'r hwn y mae proffesiwn yn cymeradwyo cynnwys, safon ac ansawdd cymwysterau perthnasol i'w faes. Esboniodd ei fod yn broses sy'n cerdded law yn llaw ag achredu academaidd. Dibenion dilysu proffesiynol, meddai, yw:

- Sêl bendith y proffesiwn
- Cysondeb cynnwys, safon ac ansawdd
- Sicrhau perthnasedd i werthoedd ac arferion proffesiynol
- Cydweddu hyfforddiant, addysg a datblygiad proffesiynol yn y gweithle
- Sicrhau'r cyhoedd/cleientiaid o safon gwasanaeth

Amlinellodd engreifftiau gwahaonol i feysydd amrywiol eraill ac awgrymodd rhai ffyrdd ymlaen, e.e.:

- Gwerthoedd ac egwyddorion
- Adnabod anghenion y maes
- Cytuno ar wybodaeth, agweddau, sgiliau, cymwyseddau craidd
- Sefydlu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Cydweithio â'r sector Addysg Uwch
- Cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Sefydlu proses ddilysu a monitro

Gorffennodd ei gyflwyniad trwy bwysleisio arwyddocad canolog dilysu proffesiynol i ddatblygiad cynllunio iaith yng Nghymru trwy aralleirio'r diffiniad o'r broses, sef, proses trwy'r hwn y mae'r proffesiwn cynllunio iaith yn cymeradwyo cynnwys, safon ac ansawdd cymwysterau cynllunio iaith perthnasol i'r maes cynllunio iaith.

Beth nesa'?

Cytunwyd bod angen:

- Asesu a mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac yna trosglwyddo'r wybodaeth;
- Asesu anghenion y gweithlu;
- Ymgynghori yn helaeth;
- Sefydlu gweithgor er mwyn cyflawni'r uchod a symud ymlaen.

Cynigwyd yr enwau canlynol ar gyfer y gweithgor:

- Lowri Angharad Hughes, Canolfan Bedwyr
- Hywel Glyn Lewis / Dai Rogers, Coleg y Drindod
- Rhys Dafis, Dyfal
- Cynrychiolwyr o Gwmni Iaith
- Cefin Campbell, Sbectrwm
- Meic Raymant / cynrychiolydd o Rhwydiaith
- Cynrychiolydd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg
- Steve Morris, Canolfan Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru
- Merfyn Morgan, PADGOS / CELLS
- Dai Bryer, Menter Iaith Abertawe (Cadeirydd MIC)

Cyfarfod nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai / Mehefin. Awgrymwyd y pynciau canlynol:

- Siaradwr â phrofiad o sefyllfa tebyg mewn gwlad arall
- Cyflwyniad ar y gwaith o asesu a mapio'r darpariaeth a fydd yn cael ei gyflawni gan y gweithgor.